# Adeiladu dyfodol gwell yng Nghymru

## Creu partneriaethau â elusennau, pobl a chymunedau

### Gweithio tuag at gymdeithas fwy cyfiawn a thrugarog







**Ein strategaeth**
2022–2026

LLOYDS BANK FOUNDATION
England & Wales

Rydym yn sefydliad elusennol annibynnol a ariennir gan Lloyds Banking Group. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag elusennau bach a lleol, pobl a chymunedau, gan newid bywydau a gweithio tuag at gymdeithas fwy cyfiawn a thrugarog. Anghenion a dyheadau pobl sy’n llywio ein gwaith. Rydym yn cryfhau’r elusennau bach a lleol sy’n eu cefnogi nhw a’r cymunedau lle maent yn byw, ac yn eirioli dros ddyfodol gwell.

Drwy gyllid anghyfyngedig, cefnogaeth i ddatblygu a dylanwadu ar bolisïau ac arferion, rydym yn helpu elusennau bach a lleol i ffynnu, cymunedau i dyfu’n gryfach, a phobl i oresgyn problemau a rhwystrau cymhleth er mwyn iddynt allu trawsnewid eu bywydau.

**Lluniau clawr**

**Cornel chwith uchaf:** Cymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru / £50,000 / Ecwiti hiliol

**Cornel dde uchaf:** Amazing Grace Spaces, Casnewydd / £50,000 / Digartrefedd a Dibyniaeth

**Gwaelod:** Y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd Abertawe / £50,000 / Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid

LLOYDS BANK FOUNDATION
England & Wales

# Beth sydd y tu mewn


**4** Effaith ein strategaeth 2018–2022

**5** Yr heriau rydyn ni'n eu hwynebu

**6** Ein gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd

**8** Ein dull gweithredu

**10** Ein hamcanion strategol

**14** Ein mesurau


"Pryd bynnag y byddaf yn gofyn [i'r aelodau] beth yw'r peth pwysicaf am Recovery Cymru - gan feddwl y byddan nhw'n dweud bod ein grwpiau yn anhygoel neu bod ein canolfannau yn anhygoel – teulu Recovery Cymru yw'r ateb ganddyn nhw, y teimlad hwnnw o fod yn gysylltiedig, o gyfarfod eraill a ddim yn cael eu beirniadu.

**Sarah Vaile**, Sylfaenydd a Phrif Weithredwr, Cymuned Recovery Cymru, elusen i helpu pobl sy'n gaeth yng Nghaerdydd, a gafodd gefnogaeth grant anghyfyngedig o £50,000

# Gwnaethom gynnydd gwych gyda'n strategaeth 2018–2022, *Reaching Further*

Fel rhan o'n strategaeth *Reaching Further*, roeddem wedi ymrwymo i fynd ymhellach gyda'n cyllid, gwaith datblygu a dylanwadu a chyrraedd mwy o elusennau bach a lleol.

Fel rhan o'n strategaeth Reaching Further, roeddem wedi ymrwymo i fynd ymhellach gyda'n cyllid, gwaith datblygu a dylanwadu a chyrraedd mwy o elusennau bach a lleol.

Yn ystod y cyfnod hwn o bum mlynedd, gwnaethom gefnogi **157 o elusennau bach** ledled Cymru gyda chyllid a chymorth meithrin gallu i ffynnu y tu hwnt i oes eu grant, yn enwedig mewn ymateb i heriau Covid. Fe wnaethom ddarparu rhwydweithiau yng Nghymru i helpu **16 o elusennau i gysylltu a dysgu** oddi wrth ei gilydd, yn ogystal â gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill ledled Cymru.

Buom yn **gweithio'n lleol ym Merthyr Tudful** gan ddod â sefydliadau'r trydydd sector, yr awdurdod lleol a landlordiaid cymdeithasol at ei gilydd i ganolbwyntio ar iechyd meddwl pobl ifanc.

Ni oedd y noddwr dyngarol mwyaf i gefnogi datblygiad Drive, dull aml-asiantaeth newydd o ymdrin â throseddwyr cam-drin domestig a dreialwyd yn y lle cyntaf ym Merthyr Tudful. Mae'r dull gweithredu bellach ar wasgar ledled Cymru a Lloegr, gan ddod â gwasanaethau cam-drin domestig ynghyd gyda'r heddlu, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i herio ymddygiad drwgweithredwyr a chefnogi goroeswyr yn well.

Mae ein gwaith yng Nghymru yn seiliedig ar ymgysylltu ag elusennau a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Grŵp Cynghori Cymru, sy'n dod â chynrychiolwyr o elusennau, seilwaith, darparwyr cefnogi datblygiad sefydliadol a Llywodraeth Cymru at ei gilydd.

> Rwy'n gweld cymaint o haenau o gyfleoedd, a bob tro byddaf yn cyfarfod cyswllt newydd, rwy'n teimlo ei fod yn berthnasol i'n hardal ac yna maen nhw'n fy nghysylltu â chyswllt arall lle mae rhagor o gyfleoedd posib!
>
> **Sharon Richards**, Prif Weithredwr Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful, un o'r sefydliadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw fel rhan o'n rhaglen Pobl a Chymunedau

# Ond dydy'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu ddim yn diflannu

## 13%

Mae mwy nag un o bob wyth aelwyd yng Nghymru (13 y cant) yn ei chael hi'n anodd weithiau, neu'n aml, i fforddio eitemau bob dydd.[1]

## 4%

Dim ond 4% o incwm blynyddol cyffredinol elusennau yng Nghymru a gaiff elusennau bach ledled Cymru a Lloegr.[2]

## 23%

Cymru sydd â'r gyfradd tlodi uchaf ym mhedair gwlad y DU, gyda bron i 1 o bob 4 (23%) o bobl mewn tlodi.[3]

## ×3.5

Mae pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig 3.5 gwaith yn fwy tebygol na phobl wyn o fod mewn tlodi cymharol yng Nghymru, yr uchaf ymysg y pedair gwlad.[4]

## 67%

Mae cyfradd y Lwfans Tai Lleol (LHA) yn **is na rhenti 67% o rentwyr** sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yng Nghymru ac sydd â hawl i'r elfen tai.[5]

## 13.1%

Mae gan Gymru gyfran uwch o bobl mewngwaith ansicr ar 13.1% na holl ranbarthau Lloegr.[6]

**1** https://www.bevanfoundation.org/resources/a-snapshot-of-poverty-in-summer-2022/

**2** https://smallcharitiesdata.org/place/wales/

**3** https://www.jrf.org.uk/report/uk-poverty-2022

**4** https://assets.website-files.com/61488f992b58e687f1108c7c/633d8007a3bfa49bd4cd0fa8_Runnymede%20Briefing%20Cost%20of%20Living%20FINAL.pdf

**5** https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2022/03/Wales-Housing-Crisis-Making-the-LHA-work-for-Wales-report-1.pdf

**6** https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2021/11/Inequality-in-a-Future-Wales-full-report-ENGLISH-UPDATED.pdf

**Ein gweledigaeth** yw cael cymdeithas deg a thrugarog lle mae pobl yng Nghymru sy'n wynebu problemau a rhwystrau cymhleth yn cael cyfle i ffynnu.

**Ein nod yw** gweithio mewn partneriaeth ag elusennau bach a lleol, pobl a chymunedau sy'n gweithio tuag at gymdeithas fwy cyfiawn a thrugarog.

# Ein gwerthoedd

### Frwd

Dros waith elusennau a chymunedau bach a lleol sy'n gweithio tuag at gymdeithas well lle mae pobl yn cael eu cefnogi ac yn gallu ffynnu.

### Gynhwysol

Rydyn ni'n cefnogi ein gilydd a'n partneriaid, a gyda'n gilydd rydyn ni'n creu gofod lle mae pawb yn cael ei gofleidio, yn cael ei barchu a'i werthfawrogi er mwyn iddyn nhw allu bod yn nhw eu hunain a chyflawni eu potensial.

### Weithgar

Rydym yn gwrando ac yn dysgu gan eraill i ddeall yr heriau y mae pobl, elusennau a chymunedau yn eu hwynebu ac yn ymrwymo i weithredu ar dystiolaeth a gwybodaeth i sicrhau newid parhaol.

### Uchelgeisiol

Ac nid yn ofni arloesi, cymryd risgiau, a gwthio am newid i chwalu'r rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu, i gryfhau elusennau, meithrin cymunedau cysylltiedig a chymdeithas deg.





Amazing
Grace Spaces,
Casnewydd
/ £50,000
/ Digartrefedd
a Dibyniaeth



Cymdeithas
Tsieineaidd
yng Nghymru
/ £50,000
/ Ecwiti hiliol

# Ein dull gweithredu ar gyfer 2022–2026 a thu hwnt

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag elusennau bach a lleol, sefydliadau a chymunedau eraill fel bod pobl sy'n wynebu problemau a rhwystrau cymhleth yn cael y gefnogaeth a'r cyfleoedd i'w goresgyn.

Byddwn yn canolbwyntio ar **ble gallwn, gyda'n gilydd, gyflawni'r newid mwyaf** o effaith ein cyllid, ein cefnogaeth a'n hadnoddau i'r gwahaniaeth mae elusennau'n ei wneud i fywydau pobl. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag elusennau a chymunedau bach a lleol sydd yn deall anghenion unigryw, cymhleth ac amrywiol y bobl maen nhw'n eu cefnogi, ond, yn bwysicaf oll, sy'n deall cryfderau'r bobl yma.

**Bydd cydweithio yn sail i bopeth a wnawn**. Byddwn yn helpu i greu mwy o ofodau a chyfleoedd i elusennau gydweithio, yn enwedig ar lefel leol, i greu partneriaethau dylanwadol a rhwydweithiau ehangach i'w helpu i gyflawni eu nodau, dylanwadu ar systemau, arferion a pholisïau a gwella bywydau pobl.

Ond rydyn ni'n gwybod na allwn ni wneud hyn **heb weithio'n galed i wella ein hunain**. Byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i wrando a dysgu, gan herio ein hunain a pheidio â bod ag ofn gwneud camgymeriadau wrth i ni wneud hynny. Byddwn yn cynyddu ein dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant gan sicrhau ei fod yn ganolog i'n gwaith.

Ac er ein bod yn falch o wasanaethu elusennau mewn cymunedau lleol ledled Cymru a Lloegr, rydym am gryfhau ein ffocws ar Gymru ar draws ein holl waith a'n rhaglenni, gan sicrhau bod ein dull gweithredu wedi'i deilwra'n briodol i gryfderau, heriau ac amgylchiadau Cymru.

**Byddwn yn cyflawni hyn drwy fod yn fwy na dim ond cyllidwr.**

"

Yn wahanol i gorff cyhoeddus neu sefydliad mwy, rwy'n teimlo y gall sefydliad llai, y trydydd sector yn arbennig, fod yn eithaf ymatebol...gallant fod ar lawr gwlad, ar lefel fwy lleol a gallant uniaethu'n gynt ag angen sy'n newid

Rhanddeiliad o'r Sector Cyhoeddus, Wrecsam, o adroddiad
*Value of Small in a Big Crisis*






**Byddwn yn ariannu** elusennau a chymunedau bach a lleol, gan feithrin cysylltiadau â nhw a buddsoddi yn eu gwaith i helpu pobl i oresgyn materion cymhleth.

Bydd ein cyllid yn anghyfyngedig ac yn hyblyg fel y gall elusennau bach a lleol ddefnyddio'r grant yn y ffordd sy'n eu helpu orau. Rydyn ni'n deall weithiau nad yw'r gwaith sy'n newid bywydau fwyaf bob amser yn edrych yn berffaith ar bapur, ac nad oes arnom ofn cymryd risgiau lle rydyn ni'n gweld gwaith da a photensial mawr.

**Byddwn yn datblygu** ac yn helpu elusennau a sefydliadau i dyfu'n gryfach ac yn fwy cydnerth er mwyn iddynt allu ffynnu y tu hwnt i'n cyllid ein hunain.

Byddwn yn meithrin cysylltiadau â'r elusennau a'r sefydliadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw, gan weithio ochr yn ochr â nhw, gan rannu ein hoffer a'n hadnoddau. Gan ddefnyddio ein cysylltiadau â Lloyds Banking Group a phartneriaid eraill, byddwn yn helpu elusennau a chymunedau i sicrhau newid hirdymor er mwyn gwella gwasanaethau a chymorth i bobl yn lleol.

**Byddwn yn dylanwadu** ar y rheini sydd â phŵer yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau sylfaenol materion cymhleth, cryfhau cymunedau a chreu cymdeithas fwy cyfiawn a thrugarog.

Byddwn yn hyrwyddo gwaith elusennau bach a lleol ac yn gweithio ochr yn ochr â nhw i godi ymwybyddiaeth o'r heriau mae pobl, elusennau a chymunedau yn eu hwynebu gyda dylanwadwyr a llunwyr polisïau. Byddwn yn cefnogi cydweithio, yn defnyddio ein cysylltiadau, y dystiolaeth rydym yn ei chasglu a'n llais ein hunain i bwyso am newidiadau i bolisïau, strwythurau ac arferion.

Cymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru / £50,000 / Ecwiti hiliol

Amazing Grace Spaces, Casnewydd / £50,000 / Digartrefedd a Dibyniaeth

**Amcan 1**

# Byddwn yn cefnogi elusennau bach a lleol sy'n gweithio gyda phobl sy'n wynebu problemau a rhwystrau cymhleth.

Byddwn yn cefnogi elusennau bach a lleol sy'n gwneud gwahaniaeth a fydd yn newid bywydau pobl. Ein ffocws fydd elusennau gydag incwm o £25,000 - £500,000 lle gall ein cyllid anghyfyngedig a'n cymorth i ddatblygu gael yr effaith fwyaf. Byddwn yn cefnogi'r elusennau hynny sy'n deall cymhlethdod y materion mae pobl yn eu hwynebu neu'r rhwystrau sydd ganddynt, ac sydd yn y sefyllfa orau i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl.

- Byddwn yn dyfarnu grantiau anghyfyngedig dros dair blynedd sy'n dod i gyfanswm o £75,000, er mwyn i elusennau gael sefydlogrwydd a mwy o ryddid i'w defnyddio fel y gwelant orau.
- Byddwn yn gweithio gydag elusennau wrth iddynt ddarganfod sut i dyfu'n gryfach. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â nhw i ddarparu amrywiaeth eang o gymorth meithrin gallu sy'n gweithio orau i elusennau, o ddarpariaeth ymarferol a gwirfoddoli'n seiliedig ar sgiliau gan ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd cydweithwyr Lloyds Banking Group, rhwydweithiau dysgu a chefnogi a digwyddiadau ac adnoddau. Byddwn yn datblygu ac yn amrywio'r amrywiaeth o gymorth rydyn ni'n ei gynnig, gan gynnwys pobl sydd â phrofiad uniongyrchol ac sy'n gallu cynnig cymorth sy'n briodol yn ddiwylliannol.
- Byddwn yn sicrhau bod ein cymorth meithrin gallu ar gael i fwy o elusennau, gan gynnwys y rhai nad ydym yn eu hariannu, fel ein bod yn fwy pellgyrhaeddol ac yn cryfhau'r sector ehangach a chymunedau.

> Mae'r cyllid anghyfyngedig hwn yn eithriadol o bwysig i'r Fferm a bydd yn helpu tuag at gostau nad oes neb yn sylwi arnynt yn aml, ond sy'n hollbwysig i'r gwaith o redeg a gweithio safle fferm mor fawr. Mae cyllid fel hwn yn gallu helpu i gefnogi costau safle a rheoli sy'n dod yn anoddach i'w canfod, ond mae'r rhain yn ffurfio'r seilwaith hanfodol sy'n cefnogi ac yn datblygu ein gwaith, gan gynnig cyfleoedd llesiant i aelodau ymylol o gymdeithas yn ogystal ag angori'r sefydliad cyfan. Mae cyllidwyr fel Lloyds sy'n gwerthfawrogi gwerth llywodraethu ac yn cefnogi elusennau bach i ddatblygu wrth wynebu newid mewnol ac allanol yn wych.
>
> **Louise Morgan**, Swyddog Codi Arian, Fferm Gymunedol Abertawe, elusen iechyd meddwl yn Abertawe gyda chymorth grant anghyfyngedig o £50,000

**Amcan**

**2**

## Byddwn yn cefnogi elusennau a'u partneriaid i gydweithio er mwyn iddyn nhw allu cryfhau cymunedau a llunio polisïau, strwythurau a chymdeithas.

Byddwn yn cefnogi elusennau bach a lleol i ddod ynghyd ac adeiladu partneriaethau gyda chynghorau, cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill sy'n gweithio'n lleol i wella bywydau pobl drwy ddylanwadu ar systemau, strwythurau a pholisïau.

- Byddwn yn cefnogi grwpiau o elusennau sy'n gweithio'n lleol i ffurfio neu wella cydweithrediadau er mwyn sicrhau newid yng nghyswllt materion cymhleth allweddol, drwy gyllid hyblyg a mynediad at ein cymorth meithrin gallu.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwaith ym Merthyr Tudful, gan helpu elusennau, cynghorau, partneriaid ac eraill i ddod ynghyd i fynd i'r afael â materion allweddol yn eu hardaloedd. Byddwn hefyd yn gweithio gyda chyllidwyr a chymunedau eraill fel aelod o LocalMotion i ddod â phobl, sefydliadau a mudiadau at ei gilydd yng Nghaerfyrddin.
- Byddwn yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd ar-lein ac wyneb yn wyneb ar gyfer yr holl elusennau y byddwn yn eu cyrraedd i rwydweithio, dysgu, rhannu a chefnogi ei gilydd o ran heriau cyffredin ac i rannu atebion.




Amazing Grace Spaces, Casnewydd / £50,000 / Digartrefedd a Dibyniaeth

Amcan

3

# Byddwn yn dylanwadu ar ymarfer a pholisi yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau materion cymhleth a'r rhwystrau mae pobl yng Nghymru yn eu hwynebu.

Byddwn yn gweithio gyda'r elusennau a'r partneriaethau rydym yn eu cefnogi ac yn defnyddio ein gwybodaeth a'n hymchwil i geisio mynd i'r afael ag achosion sylfaenol anfantais. Byddwn yn hyrwyddo ffyrdd gwell o weithio ac yn helpu pobl, elusennau bach a chymunedau i ffynnu.

- Byddwn yn parhau i hyrwyddo rôl a gwerth elusennau bach a lleol amrywiol yng Nghymru ac yn gweithio i ddylanwadu ar eraill i wella'r ffordd mae gwasanaethau ac elusennau'n cael eu comisiynu.
- Byddwn yn gweithio i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer yng nghyswllt materion allweddol sy'n effeithio ar gymaint o'r elusennau rydyn ni'n eu cefnogi a'r bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw, yn enwedig o ran gwella'r llety sydd ar gael, gweithrediad y system les a'r cymorth a roddir i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- Byddwn yn datblygu ymchwil, gwerthuso a dysgu grymus, gan rannu a defnyddio ein gwybodaeth gyda chyllidwyr a seilwaith eraill.



Cymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru / £50,000 / Ecwiti hiliol

Amcan

4

# Byddwn yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon i gael yr effaith orau bosib, gan rannu adnoddau, cyfleoedd a phŵer.

Byddwn yn sicrhau bod amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant wrth galon ein sefydliad ein hunain: ein holl waith, pwy ydyn ni, beth rydyn ni'n ei wneud, sut rydyn ni'n ei wneud. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gennym y bobl, y dulliau gweithredu a'r rheolaeth i gyflawni'r Strategaeth hon i gyd yn effeithiol.

- Byddwn yn gwella ein dulliau gweithredu, ein harferion a'n trefn lywodraethu er mwyn rhoi arweinyddiaeth gynhwysol ar waith a rhoi grym a phenderfyniadau yn agosach at bobl, elusennau a chymunedau.
- Byddwn yn buddsoddi yn ein gwaith yng Nghymru, ac yn ehangu arno, drwy gyflwyno gallu ychwanegol i gefnogi ein darpariaeth leol.
- Byddwn yn monitro, yn gwerthuso ac yn dysgu o bopeth a wnawn ar gyfer gwella'n barhaus a chyfathrebu'n effeithiol ac yn ddwyieithog, gan ddefnyddio iaith a dulliau hygyrch a chynhwysol sy'n gweithio orau i'r rheini rydyn ni'n siarad â nhw.



Y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd Abertawe / £50,000 / Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid

# Y gwahaniaeth rydym yn gobeithio ei wneud

Rydym yn ymrwymo i fesur, gwerthuso a dysgu o effaith ein cyllid, cymorth datblygu a dylanwadu, a rhannu ein gwybodaeth ag eraill.

Rydym am wneud hynny ar bob lefel: ar gyfer pobl, ar gyfer elusennau rheng flaen, y cymunedau o'u cwmpas ac ar gyfer cymdeithas.

**Bydd gwerthuso'r strategaeth hon yn anolbwyntio ar bedwar maes**

## I bobl

Byddwn yn datblygu ac yn rhannu'r modelau gwasanaeth mwyaf effeithiol ar gyfer pobl sy'n wynebu materion cymhleth, cymunedau pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a phobl B/byddar a phobl anabl.

## I elusennau


Byddwn yn cynyddu cadernid elusennau bach a lleol drwy gyfuniad o gymorth cyllido a datblygu.

## I gymunedau

Byddwn yn cefnogi cymunedau i gydweithio a mynd i'r afael â'r materion mwyaf dyrys a dwfn.

## I gymdeithas

Byddwn yn rhannu ein dysgu gyda sectorau a llefydd eraill ac yn dylanwadu ar bolisi cenedlaethol er budd elusennau bach a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.



Chinese In Wales Association, Swansea / £50,000 / Racial Equity



## Ar draws pob un o'r grwpiau hyn, ac o fewn pob un o'n rhaglenni, bydd y gwahaniaeth rydym yn gobeithio ei wneud yn cynnwys pedwar canlyniad allweddol

**Gwytnwch** – drwy ein cyllid, ein cefnogaeth datblygu a'n dylanwad, byddwn yn cryfhau gallu unigolion, elusennau a chymunedau i ymateb ac addasu i newid a tharfu. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cefnogi'r rheini rydym yn eu hariannu
i ddarparu gwasanaethau effeithiol i'r rheini sy'n wynebu sawl anfantais, cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phobl B/byddar a phobl anabl.

**Cysylltu** – byddwn yn adeiladu rhwydweithiau rhwng sefydliadau ar bob lefel, gan ysbrydoli ac annog cydweithredu a chreu cymuned ymarfer sy'n gwerthfawrogi ac yn rhannu dysgu.

**Llais** – byddwn yn ariannu ac yn hyrwyddo gwaith sy'n cryfhau llais sefydliadau lleol, rheng flaen a'r rheini sydd â phrofiad uniongyrchol i ddylanwadu ar y polisïau sy'n effeithio arnyn nhw. Byddwn yn defnyddio ein llwyfannau ein hunain i ganolbwyntio ar y rheini sydd â phrofiad uniongyrchol a chodi dylanwad elusennau yn y rheng flaen.

**Tegwch** – bydd ein gwaith yn mynd i'r afael â rhwystrau strwythurol, yn lleihau anghydraddoldeb rhwng grwpiau, yn hyrwyddo mynediad at ein cyllid ac yn cefnogi elusennau i ystyried anghenion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y cymunedau maent yn gweithio ynddyn nhw ac yn addasu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny.

Byddwn yn mesur ein cynnydd yn erbyn y canlyniadau hyn gan ddefnyddio dulliau gwerthuso sy'n cydbwyso dulliau cadarn â gofynion sy'n gymesur â gallu ein partneriaid. Byddwn yn ceisio cyhoeddi mwy o'n dysgu'n fwy rheolaidd, er mwyn rhannu gwybodaeth ag elusennau a'n partneriaid a'n cyfoedion yn y sector. Byddwn yn comisiynu gwerthuswyr allanol a phartneriaid dysgu pan fydd barn annibynnol yn cynnig gwerth ychwanegol clir ac yn buddsoddi mewn ymchwil newydd i adeiladu a rhannu tystiolaeth a gwybodaeth newydd

> Mae cyllidwyr fel Lloyds, sy’n gwerthfawrogi gwerth llywodraethu ac yn cefnogi elusennau bach i ddatblygu wrth wynebu newid mewnol ac allanol, yn wych.

**Louise Morgan**, Swyddog Codi Arian, Fferm Gymunedol Abertawe, elusen iechyd meddwl yn Abertawe gyda chymorth grant anghyfyngedig o £50,000



Rydym yn sefydliad elusennol annibynnol a ariennir gan Lloyds Banking Group. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag elusennau bach a lleol, pobl a chymunedau, gan newid bywydau a gweithio tuag at gymdeithas fwy cyfiawn a thrugarog. Anghenion a dyheadau pobl sy’n llywio ein gwaith. Rydym yn cryfhau’r elusennau bach a lleol sy’n eu cefnogi nhw a’r cymunedau lle maent yn byw, ac yn eirioli dros ddyfodol gwell.

Drwy gyllid anghyfyngedig, cefnogaeth i ddatblygu a dylanwadu ar bolisïau ac arferion, rydym yn helpu elusennau bach a lleol i ffynnu, cymunedau i dyfu’n gryfach, a phobl i oresgyn problemau a rhwystrau cymhleth er mwyn iddynt allu trawsnewid eu bywydau.

**lloydsbankfoundation.org.uk**
**enquiries@lloydsbankfoundation.org.uk**

Society Building
8 All Saints Street
London N1 9RL

LLOYDS BANK FOUNDATION
England & Wales

Registered Charity No. 327114

Company Limited by Guarantee Registered in England and Wales Company No. 1971242